WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad rheoli gwastraff – **Cyngor Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1520A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, neu o ran unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips, Sian Davies a Sara-Jane Byrne dan arweiniad Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gwneud newidiadau sylweddol i gasgliadau ailgylchu’r cartref ac mae ar y trywydd iawn i gwrdd â thargedau ailgylchu Llywodraeth Cymru, ond bydd angen iddo ddatblygu strategaeth rheoli gwastraff hirdymor, mynd i'r afael â phwysau ariannol y gwasanaeth a datblygu dull mwy strwythuredig, wedi’i ddogfennu’n well, o gynnwys amrywiaeth y boblogaeth.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn dilyn canllawiau cenedlaethol ar reoli gwastraff y cartref, er y byddai datblygu strategaeth gyffredinol yn galluogi ei wasanaeth rheoli gwastraff i adlewyrchu nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach 6

Mae'r Cyngor wedi gwella'i berfformiad ailgylchu yn sylweddol ond bydd angen mynd i'r afael â risgiau a phwysau ariannol y gwasanaeth fel rhan o'i gynlluniau am y dyfodol 7

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â phreswylwyr wrth wneud newidiadau i'w wasanaeth ailgylchu ond mae angen iddo ystyried dull mwy strwythuredig, wedi’i ddogfennu’n well o gynnwys amrywiaeth y boblogaeth 9

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd a pham

1 Adolygwyd trefniadau'r Cyngor ar gyfer lleihau gwastraff a chwrdd â thargedau ailgylchu statudol. Mae rheoli gwastraff yn fater pwysig a chymhleth, gydag amrywiaeth o oblygiadau amgylcheddol ac ariannol. Mae'n bwysig bod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i reoli gwastraff a chwrdd â'i oblygiadau amgylcheddol presennol a hirdymor.

2 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau hirdymor ar gyfer ailgylchu gwastraff trefol ac mae'n bosibl y caiff cosbau ariannol eu gosod ar gynghorau nad ydynt yn cyflawni'r targedau. Y targedau yw:

- 58% erbyn 2015-16
- 64% erbyn 2019-20
- 70% erbyn 2024-25

3 Perfformiad ailddefnyddio/ailgylchu'r Cyngor yn 2017-18 oedd 63.2%, yn erbyn targed y Cyngor ei hun o 65%, ychydig yn is na'i berfformiad yn 2016-17, sef 65.3%. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad yn y gyfradd ailgylchu ledled Cymru ar gyfer 2017-18, a oedd yn rhannol oherwydd gwelliant yn ansawdd yr adrodd [1].

4 Mae Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) wedi gweithredu gwasanaeth ailgylchu gwastraff cartref 'cymysg' ers 2011 lle caiff gwastraff ailgylchadwy (er enghraifft gwydr, papur, metel, plastig) ei gasglu a'i werthu fel deunyddiau cymysg.

5 Mae'r Cyngor yn y broses o newid y gwasanaeth rheoli gwastraff mae'n ei ddarparu i gartrefi. Ym mis Gorffennaf 2018, cytunodd y Cabinet weithredu Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru[2] sy'n dibynnu ar gasglu deunyddiau ailgylchu sych, ar wahân o gartrefi. Mae'r Glasbrint hefyd yn hyrwyddo cyfyngu ar gasgliadau gwastraff gweddilliol (bag du) er mwyn helpu i annog mwy o bobl i gyfrannu at ailgylchu gwastraff cartref.

6 Cyflwynodd y Cyngor derfyn o ddau fag bob pythefnos ar wastraff gweddilliol yn Hydref 2018, ac mae'n bwriadu cyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff ailgylchu sych, ar wahân yn wythnosol o fis Hydref 2019.

7 Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod y cyfnod o fis Mehefin i fis Medi 2019.

[1] Ystadegau gwastraff swyddogol ar gyfer 2017-18. Gweler y ddolen hon

[2] Mae'r Glasbrint Casgliadau yn nodi'r proffil gwasanaeth a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu gwastraff o gartrefi. Mae'r Glasbrint yn dibynnu ar gasglu adnoddau ailgylchadwy sy'n cael eu gwahanu'n rhannol gan breswylwyr. Caiff yr adnoddau hynny wedyn eu gwahanu ymhellach gan weithredwyr wrth iddynt gael eu casglu. Mae'r Glasbrint Casgliadau yn darparu un ffordd o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar gasglu gwastraff wrth ymyl y ffordd i gynghorau. Llywodraeth Cymru. Cynllun Sector Trefol Rhan 1 Glasbrint Casgliadau Mawrth 2011.

## Yr hyn a ganfuwyd

8 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn canlynol: A oes gan y Cyngor gynlluniau cadarn i leihau gwastraff a chyflawni'r targedau ailgylchu/ailddefnyddio cenedlaethol?

9 Ar y cyfan, canfuwyd bod y Cyngor yn gwneud newidiadau sylweddol i gasgliadau ailgylchu'r cartref a'i fod ar y trywydd iawn i gwrdd â thargedau ailgylchu Llywodraeth Cymru, ond bydd angen iddo ddatblygu strategaeth rheoli gwastraff hirdymor, mynd i'r afael â phwysau ariannol y gwasanaeth a datblygu dull mwy strwythuredig ac wedi'i ddogfennu'n well, o gynnwys amrywiaeth y boblogaeth.

10 Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Cyngor yn dilyn canllawiau cenedlaethol ar reoli gwastraff cartref, er y byddai datblygu strategaeth gyffredinol yn galluogi ei wasanaeth rheoli gwastraff i adlewyrchu nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach;
- bod y Cyngor wedi gwella'i berfformiad ailgylchu yn sylweddol ond bydd angen iddo fynd i'r afael â risgiau a phwysau ariannol y gwasanaeth fel rhan o'i gynlluniau am y dyfodol;
- bod y Cyngor wedi ymgysylltu â phreswylwyr wrth wneud newidiadau i'w wasanaeth ailgylchu ond bod angen iddo ystyried dull mwy strwythuredig ac wedi'i ddogfennu'n well, o gynnwys amrywiaeth y boblogaeth.

## Cynigion i wella

### Arddangosyn 1: Cynigion i wella

Mae'r tabl isod yn gosod y cynigion i wella rydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion i wella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei strategaeth rheoli gwastraff sydd i ddod yn ddigon hirdymor, yn adlewyrchu nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach, ac yn mynd i'r afael â risgiau ariannol y gwasanaeth wrth symud ymlaen. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ystyried a oes ganddo'r adnoddau staff i ddatblygu, rheoli a darparu'r newidiadau i'r gwasanaeth mewn ffordd gynaliadwy. |
| C3 | Dylai'r Cyngor gyflwyno dull mwy strwythuredig o gynnwys amrywiaeth y boblogaeth mewn perthynas â newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth. |
| C4 | Dylai'r Cyngor gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn llawn mewn perthynas â newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gwneud newidiadau sylweddol i gasgliadau ailgylchu cartrefi ac mae ar y trywydd iawn i gwrdd â thargedau ailgylchu Llywodraeth Cymru, ond bydd angen iddo ddatblygu strategaeth rheoli gwastraff hirdymor, mynd i'r afael â phwysau ariannol y gwasanaeth a datblygu dull mwy strwythuredig ac wedi'i ddogfennu'n well o gynnwys amrywiaeth y boblogaeth

### Mae'r Cyngor yn dilyn canllawiau cenedlaethol ar reoli gwastraff cartref, er y byddai datblygu strategaeth gyffredinol yn galluogi ei wasanaeth rheoli gwastraff i adlewyrchu nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn dilyn y dull rheoli gwastraff ac ailgylchu a argymhellir gan Lywodraeth Cymru drwy fabwysiadu'n llawn y Glasbrint Casgliadau a gweithio gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP). Byddai symud tuag at system casglu gwastraff ailgylchadwy sy'n gofyn am wahanu deunyddiau yn sicrhau bod modd olrhain deunyddiau ailgylchadwy yn well ar ôl iddynt gyrraedd eu cyrchfannau yn y DU.
- Caiff gwastraff gweddilliol ei reoli drwy'r ffatri troi gwastraff yn ynni, Prosiect Gwyrdd ym Mae Caerdydd o dan gontract 25 mlynedd.
- Caiff gwastraff bwyd ei reoli drwy dreulio anaerobig [3] o dan fenter ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd o dan gontract 15 mlynedd. Mae gwastraff gardd yn mynd i gyfleuster compost ym Mae Caerdydd.
- Mae'r Cyngor yn y broses o newid ei gasgliadau gwastraff ailgylchu'r cartref i system sy'n gwahanu deunyddiau a ddylai gynyrchu deunydd o ansawdd uchel i'w ailddefnyddio. Mae cyfyngiadau ar wastraff gweddilliol wedi'u cyflwyno eisoes ar draws holl ardal y Cyngor.
- Bwriad y newidiadau hyn yw galluogi'r Cyngor i gwrdd â thargedau ailgylchu cenedlaethol a helpu i wneud ei wasanaeth rheoli gwastraff yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn yr hirdymor.

[3] Proses lle mae deunydd **organig** megis **gwastraff bwyd** yn cael ei chwalu i greu bio-nwy a gwrtaith bio yw **treulio anaerobig**. Mae'r broses hon yn digwydd pan fydd diffyg ocsigen mewn tanc heb ocsigen, wedi'i selio, o'r enw **treuliwr anaerobig**.

12 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Cafodd y newidiadau i'r gwasanaeth gwastraff eu cofnodi’r gynhwysfawr mewn dau adroddiad i'r Cabinet yn 2018, ond nid oes strategaeth rheoli gwastraff gyffredinol, ar wahân i un sy’n dyddio o 2004 a ddisodlwyd i bob diben gan adroddiad Gorffennaf 2018 i’r Cabinet. Mae'r Cyngor yn bwriadu creu strategaeth rheoli gwastraff newydd yn 2020. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi disgwyliad bod cyrff cyhoeddus yn cynllunio o leiaf 10 mlynedd i’r dyfodol. Mae'r Cyngor yn gwneud newidiadau sylweddol i'w wasanaethau rheoli gwastraff yn yr hirdymor a byddai'n elwa ar gael strategaeth gyffredinol er mwyn helpu i wneud hyn ac er mwyn adlewyrchu nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach (gan gynnwys lleihau carbon ac atal gwastraff).
- Mae’r gwaith o reoli’r newidiadau i’r gwasanaeth a datblygu gorsaf drosglwyddo newydd yn cael ei oruchwylio gan ddau swyddog. Mae ymdrin â chymaint o wybodaeth a phrofiad mewn tîm mor fach yn cyflwyno risg sylweddol o ran cyflawni’r newidiadau i'r gwasanaeth. Mae angen i'r Cyngor ystyried  a oes ganddo'r adnoddau staff i ddatblygu, rheoli a darparu’r newidiadau i'r gwasanaeth mewn ffordd gynaliadwy.

## Mae'r Cyngor wedi gwella'i berfformiad o ran ailgylchu yn sylweddol ond bydd angen iddo fynd i'r afael â risgiau a phwysau ariannol y gwasanaeth fel rhan o'i gynlluniau am y dyfodol

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi derbyn cymorth gan WRAP drwy’r Rhaglen Newid Gydweithredol er mwyn adolygu ei wasanaethau ailgylchu a gwastraff sy'n bodoli eisoes i ystyried sut y gellir gwella agweddau ar y gwasanaeth yn y dyfodol.
- Fel rhan o'r cymorth hwn, cynhaliodd WRAP weithgaredd modelu ar ran y Cyngor ar gosteffeithiolrwydd amrywiaeth o systemau gwahanol ar gyfer casglu deunyddiau ailgylchu a gwastraff wrth ymyl y ffordd. Daeth y gwaith hwn i’r casgliad mai'r Glasbrint Casgliadau oedd y system fwyaf costeffeithiol.
- Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y seilwaith sydd ei angen ac wedi rhoi newidiadau i gasglu bagiau du ar waith. Mae'r Cyngor wedi cytuno i gyflwyno casgliadau ailgylchu gwastraff cartref ar wahân yn ardal wledig Bro Morgannwg ym mis Hydref 2019, yn y Barri yng ngwanwyn 2020 ac ym Mhenarth yn haf 2020.
- Mae'r Cyngor yn hyderus bod newidiadau diweddar eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar ei berfformiad ailgylchu, ac mae ffigurau ar gyfer 2018-19 yn dangos gwelliant yn ei gyfradd ailgylchu i 67.1%. Mae'r Cyngor ar y trywydd

iawn i ragori ar y targed ailgylchu statudol o 64% erbyn 2019-20. Nododd yr adroddiad ar berfformiad chwarter 1 a aeth i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ym mis Tachwedd 2019 gyfradd ailgylchu o 74.34%. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi hyder yng ngallu'r Cyngor i gwrdd â thargedau ailgylchu yn y blynyddoedd i ddod.

- O'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru fesul cartref, mae gan wasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor enw da am fod yn un o'r gwasanaethau â'r gost isaf. [4]
- Mae'r Cyngor wedi ceisio dysgu wrth gynghorau eraill yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu'r Glasbrint Casgliadau.
- Mae'r swyddogion yn cynllunio gorsaf trosglwyddo gwastraff newydd wrth ymyl Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref sydd eisoes yn bodoli yn y Barri a fydd yn derbyn y rhan fwyaf o'r deunyddiau ailgylchu ar wahân o ardal Bro Morgannwg. Mae'r amserlen yn gofyn bod yr orsaf drosglwyddo yn gweithredu erbyn Hydref 2020. Mae cael Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref a'r orsaf trosglwyddo gwastraff ar un safle yn cynnig potensial i sicrhau effeithlonrwydd o ran costau a gweithrediadau.
- Mae'r Cyngor wedi sicrhau capasiti dros dro cyfyngedig i fynd â'r casgliadau ailgylchu ar wahân o ardal wledig Bro Morgannwg i safle yn y Bont-faen. Bydd y ddwy system (ailgylchu cymysg ac ailgylchu ar wahân) yn rhedeg ar y cyd am o leiaf blwyddyn tra bod yr orsaf drosglwyddo newydd yn cael ei hadeiladu.
- Nid yw Llywodraeth Cymru na Cyfoeth Naturiol Cymru wedi codi unrhyw bryderon penodol mewn perthynas â gwasanaethau gwastraff sydd eisoes yn bodoli neu'r newidiadau a gynlluniwyd i'r gwasanaethau.

14 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Mae cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi pwysau cost refeniw a ragfynegwyd o £630,000 ar gyfer gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn 2019-20. Mae'r gwasanaeth wedi profi gofynion ariannol annisgwyl a defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn o £757,044 yn 2018-19 mewn perthynas â'r contract ailgylchu cymysg. Roedd hyn oherwydd bod y Cyngor wedi derbyn incwm llai o ganlyniad i'r dirywiad byd-eang mewn prisiau gwastraff ailgylchadwy cymysg. Gorwariodd y gwasanaeth £235,000 yn 2017-18 a £1.4 miliwn yn 2018-19. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaraf yn nodi bod y gwasanaeth gwastraff yn parhau i fod o dan bwysau cyllidebol sylweddol a chynyddwyd y sgôr risg gwastraff i ganolig/uchel. Rhan allweddol o'r strategaeth gwastraff sydd i ddod fydd yr angen i ddangos sut bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r risgiau ariannol hyn wrth symud ymlaen.

[4] Nododd proses meincnodi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gostau rheoli gwastraff ar gyfer 2016-17, mai Cyngor Bro Morgannwg oedd â'r gost isaf ar wahân i ddau gyngor arall, o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru fesul cartref. Ar gyfer y flwyddyn 2017-18, rhestrwyd y Cyngor fel y pedwerydd isaf o ran cost.

- Mae'r newid i gasgliadau ailgylchu cartref ar wahân yn dibynnu ar ddatblygiad cymharol gyflym gorsaf trosglwyddo gwastraff yn y Barri. Dylai asesiad risg a chynllun wrth gefn priodol fod ar waith er mwyn bod yn barod am unrhyw oedi.

## Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â phreswylwyr wrth wneud newidiadau i'w wasanaeth ailgylchu, ond mae angen iddo ystyried dull mwy strwythuredig ac wedi'i ddogfennu'n well o gynnwys amrywiaeth y boblogaeth

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y cryfderau canlynol:

- Gweithiodd y Cyngor gyda WRAP i ddatblygu cynllun cyfathrebu pwrpasol cyn cyflwyno'r newidiadau i'r gwasanaeth. Daeth hyn ag arbenigedd a gwersi a ddysgwyd o ardaloedd arall yng Nghymru.
- Anogwyd preswylwyr i gwblhau arolwg ar-lein yn ystod mis Ebrill a Mai 2018 cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth. Ceisiodd yr arolwg hwn godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd i ddod a chasglu gwybodaeth gan breswylwyr am y ffordd orau o gyflwyno'r newidiadau, er enghraifft rhwystrau i ailgylchu a ffafriaeth o ran cynwysyddion. Derbyniodd y Cyngor dros 6,000 o ymatebion i'r arolwg, sy'n cynrychioli dros 10% o gartrefi yn ardal y Cyngor. Gellir gweld bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael effaith ar y ffordd y cynlluniwyd y trefniadau dilynol ar gyfer y gwasanaeth newydd. Enghraifft o hyn yw cyflwyno 'quad sack', sef un sach gyda phedair adran, sy'n osgoi'r angen i gael pedwar cynhwysydd ar wahân felly. Cyflwynwyd hyn i breswylwyr a ddywedodd fod ganddynt naill ai lle storio cyfyngedig neu swm cymharol fach o wastraff ailgylchu.
- Defnyddiodd y Cyngor amrywiaeth o fecanweithiau er mwyn ymgysylltu â phreswylwyr wrth gyflwyno'r terfyn ar fagiau du. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu uniongyrchol, postio ar rwydweithiau cymdeithasol, hysbysebion mewn papurau newydd, sioeau teithiol, llinell gymorth ar wastraff, cyflwyniadau i grwpiau yn y gymuned a'r defnydd o wardeiniaid gwastraff, a gyflogwyd dros dro er mwyn cynorthwyo preswylwyr.

16 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cydamcanu - Cydymdrechu) yn nodi disgwyliad y bydd cyrff cyhoeddus yn cynnwys amrywiaeth o bobl a chymunedau mewn penderfyniadau a allai newid y gwasanaethau a ddarperir iddynt. Mae'r Cyngor wedi dangos ymarfer ymgynghori eang. Fodd bynnag, byddai hyn yn elwa ar gael ei ategu gan ddull mwy strwythuredig, wedi'i ddogfennu'n well, o ymgysylltu ag amrywiaeth y boblogaeth (megis grwpiau anabl, yr henoed, pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol) ar faterion rheoli gwastraff, ac ymateb iddynt. Nid yw swyddogion wedi siarad yn benodol ag unrhyw grwpiau cynrychioliadol heblaw am y preswylwyr hynny a fynychodd sioeau teithiol.

- Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd cyn cyflwyno’r terfyn dau fag du (dyddiedig Mawrth 2018) yn anghyflawn. Mae'n nodi'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth a phwy fydd y cynnig yn effeithio arno, ond ni chwblhawyd yr asesiad gwirioneddol o effaith. Nododd adroddiad y Cabinet ym mis Gorffennaf 2018 sy'n ymwneud â'r Glasbrint a'r newidiadau i’r terfyn ar wastraff gweddilliol y byddai angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb oherwydd byddai newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth, ond ni ddarparwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i'r Cabinet ochr yn ochr â'r adroddiad ym mis Gorffennaf 2018, er y nodwyd yr angen i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb sy'n ymwneud â'r newidiadau i'r gwasanaeth yn argymhellion yr adroddiad. Mae absenoldeb Asesiad cyflawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb I yn rhwystro gallu'r Cyngor i ddangos ei fod wedi ystyried yn llawn anghenion amrywiaeth y boblogaeth. Pan fydd penderfyniad yn effeithio’n amlwg ar nifer sylweddol o bobl, rhaid i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth ofalus i'w Dyletswydd Cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Asesiad trylwyr o’r Effaith ar Gydraddoldeb gyda dadansoddiad a thystiolaeth, gan osod camau ar gyfer monitro effaith yn gyfle i ddangos ystyriaeth o'r fath.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru